# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 7 Chwefror 2007

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ehangu'r defnydd o gynhyrchu ynni gwyrdd o ffynonellau trwy rym tonnau a llanw oddi ar arfordir Gogledd Cymru. (WAQ49285)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i fusnesau bach Cymreig mewn cymunedau gwledig. (WAQ49286)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi gohebu â gweinidog yn San Steffan ynghylch cynnig diwygiedig NDM3223 a basiwyd yn y Cynulliad ddydd Mawrth 3ydd Hydref, ac, os felly, a wnaiff y Gweinidog nodi manylion yr ohebiaeth honno a'r ymateb iddi. (WAQ49300)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion pa drafodaethau a gafodd gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd ynghylch cyfreithloni gwerthiant 'smokies'. (WAQ49299)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithlonrwydd ei pholisïau ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus. (WAQ49287)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y meddygfeydd yng Nghymru sydd wedi gorfod cau oherwydd fandaliaeth. (WAQ49284)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwyno polisïau iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Alyn a Glannau Dyfrdwy. (WAQ49288)

**Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynd i'r afael â'r twf mewn gordewdra ymhlith plant yng Nghymru. (WAQ49289)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer yr ysbytai a gaewyd bob blwyddyn er 1997, ac a wnaiff roi manylion am nifer y gwelyau ym mhob ysbyty. (WAQ49298)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer yr ysbytai newydd a godwyd bob blwyddyn er 1997, ac a wnaiff roi manylion am nifer y gwelyau ym mhob ysbyty. (WAQ49297)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch pa ysbytai newydd a godwyd bob blwyddyn er 1997 a godwyd drwy gyfrwng Menter Cyllid Preifat. (WAQ49296)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer yr ysbytai a gaewyd bob blwyddyn rhwng 1979 ac 1996, ac a wnaiff roi manylion am nifer y gwelyau ym mhob ysbyty. (WAQ49295)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr amser aros ar gyfartaledd ar gyfer Oedi wrth Drosglwyddo Gofal ar gyfer pob blwyddyn er 1999. (WAQ49294)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch y canran o'r boblogaeth a oedd wedi cofrestru gyda deintydd y GIG ar gyfer pob blwyddyn er 1997. (WAQ49293)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar nifer y cartrefi gofal a gaewyd ym mhob blwyddyn er 1997. (WAQ49291)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am ddyled gronedig y GIG hyd yma. (WAQ49292)